

Ebrill 2022

Ymgynghoriad cronfa arloesi – Dull gweithredu ar gyfer 2022-25

ofwat

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y gronfa arloesi dros y tair blynedd nesaf (2022-25) ac yn gofyn cwestiynau allweddol i gasglu eich barn er mwyn helpu i lunio ac esblygu ein dull.

Pwy ddylai ymateb?

Hoffem glywed gan unrhyw un a allai fod â diddordeb mewn gwneud cais i'r gronfa neu sydd â diddordeb yng nghanlyniad y gronfa megis: academia, elusennau, ymgynghoriaethau, cwsmeriaid, cyrff cynrychioli cwsmeriaid, cyrff neu gymdeithasau diwydiant, gweithgynhyrchwyr, penodiadau newydd ac amrywiadau (NAV), sefydliadau anllywodraethol, rheoleiddwyr eraill, busnesau newydd, sefydliadau cadwyn gyflenwi, darparwyr technoleg, cwmnïau dŵr a manwerthwyr dŵr.

Pam ddylech chi ymateb?

Mae gennych gyfle i lunio dyfodol cronfa arloesi Ofwat. Gall eich barn ddylanwadu ar ein dull ar gyfer cynllunio cystadleuaeth, mynediad at gystadleuaeth, lefelau dyfarniadau cyllid a gwasanaethau cymorth.

Sut allwch chi ymateb?

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn [online](#), drwy e-bost i innovationconsultation@ofwat.gov.uk neu drwy'r post (gweler adran 4 am ragor o fanylion). Croesawn eich ymateb erbyn 17 Mai.

Cadwch lygad am ein cwestiynau wedi'u rhifo mewn blychau fel hyn drwy'r ddogfen.

Dyma'r meysydd lle mae angen eich adborth fwyaf arnom.



Strwythur yr ymgynghoriad hwn

Rydym yn rhoi crynodeb lefel uchel gyda gwybodaeth allweddol am y gronfa, pa fathau o brosiectau rydym yn chwilio amdanynt a beth yw diben yr ymgynghoriad hwn.

Adran 1: Trosolwg o'r gronfa arloesi

Mae'r adran hon yn rhoi amserlen y gronfa arloesi. Rydym yn amlinellu amcan, nodau a chanlyniadau ein cronfa. Rydym hefyd yn rhoi trosolwg o'r prosiectau a ariannwyd hyd yma.

Adran 2: Themâu arfaethedig y gronfa arloesi ar gyfer 2022-25

Mae'r adran hon yn amlinellu themâu'r gronfa arloesi y bwriadwn alinio cystadlaethau â nhw yn y dyfodol. Rydym am gael eich barn ar y themâu hyn.

Adran 3: Dull cystadleuaeth arfaethedig ar gyfer 2022-25

Mae'r adran hon yn amlinellu'r dull y bwriadwn ei fabwysiadu ar gyfer tair blynedd nesaf y gronfa. Dyma'r maes yr ydym yn ceisio eich barn er mwyn llunio ein dull gweithredu.

Adran 4: Ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'r camau nesaf

Mae'r adran hon yn amlinellu sut y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'r hyn y byddwn yn ei wneud nesaf.

Gwybodaeth atodol

Atodiad 1: Themâu arfaethedig y gronfa arloesi ar gyfer 2022-25 – rhoi mwy o fanylion am esblygiad themâu'r gronfa arloesi.

Atodiad 2: Y dull cystadleuaeth arfaethedig ar gyfer 2022-25 – rhoi mwy o fanylion am esblygiad y dull cystadleuaeth ar gyfer 2022-25.

Atodiad 3: Cwestiynau'r ymgynghoriad – rhoi rhestr wedi'i chrynhofi o holl gwestiynau'r ymgynghoriad.

Atodiad 4: Cynnydd yn ystod y cyfnod peilot – rhoi manylion y prosiectau buddugol ynghyd â chrynodeb o gynnydd yn erbyn nodau a chanlyniadau'r gronfa.

Atodiad 5: Mewnwelediadau o'r cyfnod peilot – rhoi trosolwg o'r adborth a gawsom yn ystod y cyfnod peilot ynghyd â rhai mewnwelediadau allweddol.

Sefydlwyd y gronfa arloesi i alluogi'r **sector dŵr i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd yn well a chreu gwerth hirdymor iddynt drwy arloesi.**

Cesglir yr arian ar gyfer y gronfa drwy filiau cwsmeriaid dŵr preswyl (£1.50 fesul aelwyd y flwyddyn).

Rhaid i bob prosiect felly ddangos budd i gwsmeriaid dŵr preswyl, a allai fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.



Dyfarnwyd **£43 miliwn i 33 o brosiectau** ers mis Ionawr 2021

Tua **£34 miliwn** i'w ddyfarnu erbyn diwedd Ebrill 2022

Tua **£120 miliwn** ar gael i'w ddyfarnu erbyn 2025

Rydym yn chwilio am brosiectau sy'n gwneud y canlynol:

- sbarduno **arloesedd uchelgeisiol** i alluogi ffyrdd newydd o weithio sy'n mynd y tu hwnt i fusnes fel arfer;
- arfogi'r sector dŵr i **fynd i'r afael â'r heriau mawr** y mae'n eu hwynebu ([strategaeth arloesi dŵr 2050](#) a [blaenoriaethau arloesi](#));
- ysgogi buddion pellgyrhaeddol a **pharhaol** i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd;
- helpu i ddatblygu a chryfhau **gweithgareddau galluogi arloesedd** y sector;
- cynyddu a gwella **cydweithredu** a meithrin **partneriaethau cynyddu a gwella cydweithio ac adeiladu partneriaethau o fewn a thu allan i'r sector dŵr; ac**
- sydd ar unrhyw gam o aeddfedrwydd arloesi.

Rydym wedi bod yn gweithredu'r gronfa ers ychydig dros flwyddyn fel cynllun peilot ac wedi'n calonogi gan lefel y diddordeb, y cydweithio, yn ogystal ag ansawdd a'r mathau o geisiadau yr ydym wedi'u gweld hyd yma.

Yn ystod y cyfnod peilot gallai unrhyw sefydliad ymuno â'r gronfa mewn partneriaeth ag un (neu ragor) o'r [17 cwmni dŵr neu wyth NAV yng Nghymru a Lloegr](#). Gwelsom gwmnïau dŵr yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau dŵr eraill, manwerthwyr dŵr, y gadwyn gyflenwi ac amrywiaeth o arloeswyr o fewn a thu allan i'r sector dŵr. Mae bron i 100 o sefydliadau wedi cymryd rhan hyd yn hyn.

Fodd bynnag, mae meysydd allweddol lle credwn y byddai esblygiad pellach o'r gronfa yn fuddiol dros y tair blynedd nesaf (2022-25). Yr meysydd allweddol yw:

- cefnogi mwy o syniadau cam cynnar drwy'r gronfa arloesi;
- caniatáu i arloeswyr gael mwy o fynediad at y gronfa;
- annog ystod ehangach o ddatblygiadau arloesol, gan gynnwys o sectorau eraill;
- lleihau rhwystrau i ymwneud â'r gronfa; a
- hwyluso perthnasoedd a chydweithrediadau newydd ar draws y sector ac o sectorau eraill.

Rydym yn croesawu eich barn ar y dull gweithredu a gynigir ar gyfer 2022-25 erbyn 17 Mai 2022.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn online, drwy e-bost i innovationconsultation@ofwat.gov.uk neu drwy'r post (gweler Adran 4 am ragor o fanylion).


Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig:

- rhannu'r £120 miliwn sy'n weddill o'r gronfa yn dri dyfarniad blynyddol o tua £40 miliwn rhwng 2022-25;
- cyflwyno **cystadleuaeth newydd** wedi'i thargedu'n bennaf at arloeswyr i gefnogi datblygiad syniadau cam cynharach, gweler Adran 3 ac Atodiad 2 am ragor o fanylion;
- dyrannu cyfran o'r cyllid (tua £4 miliwn) sydd ar gael ar gyfer 2022-25 i'r **gystadleuaeth newydd** hon a chael gwared ar rwystrau i gyfranogiad;
- caniatáu i unrhyw un fod yn brif ymgeisydd mewn partneriaeth ag unrhyw sefydliad ar gyfer ffrwd Catalydd yr **Her Torri Drwodd Dŵr**;
- caniatáu i berchnogion IPR cefndirol godi ffi'r drwydded ar gyfradd deg, resymol ac anwahaniaethol am geisiadau i ffrydiau Catalydd a Thrawsnewid yr **Her Torri Drwodd Dŵr**; a
- chynnal holl elfennau eraill y ffrydiau Catalydd a Thrawsnewid yr **Her Torri Trwodd Dŵr**, gweler Adran 3 ac Atodiad 2 am ragor o fanylion.

Adran 1: Trosolwg o'r gronfa arloesi

Rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r sector dŵr a rhanddeiliaid ehangach ar ddatblygu'r gronfa arloesi ers 2019. Mae'r adborth a gawsom wedi dylanwadu ar ein dull cyfnod peilot. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi cynnal tair cystadleuaeth ac wedi dyfarnu [£43 miliwn i 33 o brosiectau](#). Byddwn yn dyfarnu tua £34 miliwn arall erbyn diwedd mis Ebrill 2022.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn bwriadu dyfarnu tua £120 miliwn i brosiectau arloesol.



Amcan trosfwaol y gronfa yw y gall y **sector ddiwallu anghenion cwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd yn well a chreu gwerth hirdymor iddynt drwy arloesi.**

Nod y gronfa yw cyflawni'r amcan hwn drwy ysgogi effaith mewn tri maes allweddol:



Yn ystod y cyfnod peilot, credwn ein bod wedi gwneud cynnydd ar bob un o dri nod y gronfa. Fodd bynnag, credwn fod angen i ni wneud mwy yn benodol i gyflymu'r broses o greu cynhyrchion, gwasanaethau a chysyniadau arloesol ac i dyfu capasiti a gallu'r sector.


Mewn perthynas â saith canlyniad bwriedig y gronfa, rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn pob un o'r rhain, fodd bynnag, fel gyda'r nodau mae mwy y mae angen i ni ei wneud i gyflawni'r canlyniadau hyn. Gweler Atodiad 4 am ragor o fanylion.

Saith canlyniad bwriedig y gronfa

- **Canlyniad 1:** Mae'r diwydiant yn deall ac yn gwerthfawrogi rôl arloesi wrth ddatrys problemau hirdymor.
- **Canlyniad 2:** Mwy o bartneriaethau a chydweithio ar draws cwmnïau, y gadwyn gyflenwi a thu allan i'r sector dŵr.
- **Canlyniad 3:** Mae prosiectau sy'n cael eu cefnogi neu eu hysgogi drwy'r gronfa yn arloesol ac yn rhoi buddion a dysg hyd yn oed os ydynt yn methu.
- **Canlyniad 4:** Mwy o agoredrwydd i rannu data, mewnwelediadau a syniadau i gefnogi arferion arloesol o fewn y sector dŵr a gyda sectorau eraill.
- **Canlyniad 5:** Lleihawyd y rhwystrau i ehangu a chyflwyno arloesiadau profedig yn y sector.
- **Canlyniad 6:** Mae'r sector wedi cynyddu ac ymgorffori sgiliau arloesi newydd yn eu ffyrdd o weithio.
- **Canlyniad 7:** Mae Ofwat yn deall sut i gyfeirio a galluogi arloesedd yn well yn y sector dŵr.

Adran 1: Trosolwg o'r gronfa arloesi

Hyd yn hyn, rydym wedi gweld amrywiaeth o brosiectau ar draws y cylch dŵr. Cliciwch ar y # i ddarganfod mwy am bob un o'r 33 o brosiectau buddugol rydym wedi'u cael hyd yn hyn.



Rhaid i geisiadau a gyflwynir i'r gronfa arloesi alinio ag un neu fwy o themâu'r gronfa arloesi. Bwriad y themâu hyn yw amlygu meysydd allweddol lle mae angen meddwl arloesol yn y sector dŵr.

Rydym wedi myfyrio ar yr adborth a gawsom yn ystod y cyfnod peilot ac wedi diwygio ein themâu i gyd-fynd yn agosach â [strategaeth arloesi dŵr 2050](#) a [datganiad Polisi Strategol](#) diweddaraf Llywodraeth y DU. Rydym yn cynnig defnyddio'r pedair thema cronfa arloesi canlynol ar gyfer 2022-25:



1.

Ymateb ac addasu i newid yn yr hinsawdd gan gynnwys cyflawni uchelgeisiau'r sector o garbon sero net, dim gwastraff a dim gollyngiadau



2.

Diogelu a gwella'r amgylchedd a systemau naturiol, i amddiffyn cwsmeriaid presennol a'r dyfodol rhag effeithiau tywydd eithafol a llygredd



3.

Sicrhau gwytnwch gweithredol hirdymor a deall risgiau seilwaith i gwsmeriaid a'r amgylchedd, dod o hyd i atebion i liniaru'r rhain mewn ffyrdd cynaliadwy ac effeithlon



4.

Profi ffyrdd newydd o gynnal gweithgareddau craidd i ddarparu'r gwasanaethau y mae cwsmeriaid a chymdeithas eu hangen, yn eu disgwyl a'u gwerthfawrogi nawr ac yn y dyfodol

Rydym yn darparu mwy o fanylion am esblygiad themâu ein cronfa arloesi yn Atodiad 1.

O fewn pedair thema'r gronfa arloesi gallem ddatblygu, **heriau wedi'u targedu** mwy penodol ar gyfer cystadlaethau yn y dyfodol. Rydym yn ymwybodol bod [SPRING](#) i'n cynnal heriau penodol ac agored ar hyn o bryd a bod eraill yn y sector wedi cynnal cystadlaethau'n llwyddiannus gan ddefnyddio heriau wedi'u targedu.

Er mwyn datblygu heriau wedi'u targedu ar gyfer y gronfa arloesi, rydym yn bwriadu ymgysylltu â chwmnïau dŵr a rhanddeiliaid ehangach y sector dŵr o leiaf dri mis cyn i gystadleuaeth agor ar gyfer ceisiadau. Byddwn yn cyd-greu'r her(iau) i sicrhau eu bod yn ddigon penodol i ganfod syniadau arloesol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y sector dŵr.

C1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein themâu ar gyfer 2022-25 y gronfa?

C2. A oes gennych chi farn ynglŷn ag a ddylem ddefnyddio her(iau) penodol, wedi'u targedu ar gyfer cystadlaethau yn y dyfodol? Os credwch y dylem, a oes gennych farn ar sut y dylem eu creu ac at ba gystadlaethau yn y dyfodol y dylem eu cymhwysu?



Rydym wedi ystyried yr adborth a'r mewnwelediadau a gawsom hyd yn hyn yn ystod y cyfnod peilot a chredwn fod meysydd allweddol lle gallwn ddatblygu'r gronfa ar gyfer 2022–25, gweler Atodiad 5 am ragor o fanylion. Yr meysydd allweddol yw:

- cefnogi mwy o syniadau cam cynnar drwy'r gronfa arloesi;
- caniatáu i arloeswyr gael mwy o fynediad at y gronfa;
- annog ystod ehangach o ddatblygiadau arloesol, gan gynnwys o sectorau eraill;
- lleihau rhwystrau i ymwneud â'r gronfa; a
- hwyluso perthnasoedd a chydweithrediadau newydd ar draws y sector ac o sectorau eraill.

Bydd holl elfennau eraill y ffrydiau Catalydd a Thrawsnewid Her Torri Drwodd Dŵr yn cael eu cynnal ar gyfer 2022–25. Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion.

Bwriadwn rannu'r £120 miliwn sy'n weddill o'r gronfa yn dri dyfarniad blynyddol o tua £40 miliwn rhwng 2022–25;

Rydym yn croesawu eich barn ar ein dull arfaethedig ar gyfer 2022–25.

Er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd allweddol hyn rydym yn bwriadu:

- cyflwyno **cystadleuaeth newydd** wedi'i thargedu'n bennaf at arloeswyr i gefnogi datblygiad syniadau cam cynharach;
- dyrannu cyfran o'r cyllid (tua £4 miliwn) sydd ar gael ar gyfer 2022–25 i'r **gystadleuaeth newydd** hon a chael gwared ar rwystrau i gyfranogiad;
- caniatáu i unrhyw un fod yn brif ymgeisydd mewn partneriaeth ag unrhyw sefydliad ar gyfer ffrwd Catalydd yr **Her Torri Drwodd Dŵr**;
- caniatáu i berchnogion IPR cefndirol godi ffi'r drwydded ar gyfradd deg, resymol ac anwahaniaethol am geisiadau i ffrydiau Catalydd a Thrawsnewid yr **Her Torri Drwodd Dŵr**.

Cystadleuaeth newydd

Nid yw ein cystadlaethau cyfnod peilot wedi galluogi syniadau cynnar i gael eu cyflwyno'n hawdd, ac rydym yn gweld arloesiadau yn y maes hwn yn bwysig i helpu'r gronfa i gyflawni ei nodau a'i chanlyniadau hirdymor. Er mwyn cefnogi mwy o syniadau cam cynnar ac annog arloeswyr i gymryd rhan uniongyrchol yn y gronfa, rydym yn cynnig:

- dyrannu cyfran o'r cyllid (tua **£4 miliwn y flwyddyn**) i gystadleuaeth newydd sy'n canolbwyntio ar alluogi a chefnogi datblygiad syniadau cam cynharach (**ceisiadau hyd at £250,000**);
- caniatáu i unrhyw un gyflwyno cynnig heb fod angen i gwmni dŵr arwain cais;
- bod â meini prawf cymhwysedd lleiaf posibl, er enghraifft dim amodau IPR neu gyfraniadau ariannol gorfodol; a
- bod â phroses mynediad symlach.

Rydym am sicrhau bod llwybr clir i syniadau a phrosiectau symud ymlaen y tu hwnt i'r gystadleuaeth newydd, naill ai drwy'r Her Torri Drwedd Dŵr neu drwy ddatblygiad uniongyrchol/mabwysiadu gan gwmnïau dŵr neu'r gadwyn gyflenwi. Felly, mae cyfranogiad cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid dŵr ehangach (er enghraifft cyrff cadwyn gyflenwi) yn y gystadleuaeth newydd yn bwysig er mwyn sicrhau bod syniadau cynnar yn cael eu hamlygu a'u llywio'n ddigonol.

Rydym wedi nodi rhai ffyrdd y credwn y gallai cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid dŵr ehangach gefnogi'r gystadleuaeth newydd ac arloeswyr:

- gweithio ar y cyd ag Ofwat i lunio **heriau cystadleuaeth wedi'u targedu**;
- darparu data i gynorthwyo datblygiad / profi syniadau cam cynnar;
- **rôl mewn dewis enillwyr**, naill ai wrth asesu dichonoldeb syniadau neu ddarparu cynrychiolaeth ar y panel beirniadu (neu'r ddau); a
- **rôl mewn datblygu datrysiadau**, drwy o bosibl ddewis hyrwyddo her (a gweithio wedyn gyda'r holl ymgeiswyr buddugol), neu drwy weithio mewn partneriaeth â chynigion unigol.

C3. Pe byddem yn cyflwyno'r gystadleuaeth newydd hon sy'n canolbwyntio ar arloesiadau cam cynharach, a fyddai arloeswyr yn ystyried cymryd rhan? Eglurwch eich ateb.

C4. A oes gennych unrhyw farn ar sut y gallem strwythuro'r gystadleuaeth newydd? Rydym wedi darparu ffigurau dangosol uchod ond byddem yn croesawu eich barn ar derfynau gwerth mynediad, swm y gronfa gyffredinol a ddyrennir i'r gystadleuaeth newydd hon, amllder y gystadleuaeth newydd hon (er enghraifft yn flynyddol)?

C5. A oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried os byddwn yn cyflwyno'r gystadleuaeth newydd hon?

C6. Sut gallai cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid dŵr gefnogi ac ymgysylltu'n fwyaf effeithiol â'r gystadleuaeth newydd arfaethedig hon?

C7. A oes gennych unrhyw farn ar y meysydd yr ydym wedi'u nodi ar gyfer cymorth posibl gan gwmnïau dŵr a rhanddeiliaid dŵr?





Yn ystod y cyfnod peilot, fe wnaethom gyflwyno'r Her Torri Drwodd Dŵr i ariannu sbectrwm eang o brosiectau arloesi. Yn yr ail Her Torri Drwodd Dŵr cynhaliwyd dwy ffrwd ariannu wahanol: Catalydd a Thrawsnewid.

Rydym wedi ein calonogi gan lefel y diddordeb, y cydweithio, yr ansawdd a'r mathau o geisiadau yr ydym wedi'u gweld drwy'r ddwy'r ffrwd. Rydym yn cynnig cynnal ffrydiau Catalydd a Thrawsnewid yr Her Torri Drwodd Dŵr ar gyfer 2022–25.

Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion.

Nod **ffrwd Catalydd** yw annog ffyrdd newydd o weithio sy'n mynd y tu hwnt i arferion arloesi busnes fel arfer yn y sector dŵr, yn benodol, cynyddu a gwella cydweithredu ac adeiladu partneriaethau o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector dŵr.

Nod **ffrwd Trawsnewid** yw sbarduno arloesedd uchelgeisiol a galluogi dulliau a ffyrdd newydd o weithio, gan arfogi'r sector dŵr i fynd i'r afael â'r heriau mawr y mae'n eu hwynebu, gan ysgogi buddion pellgyrhaeddol a hirhoedlog i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd ledled Cymru a Lloegr nawr ac i'r dyfodol.

Ffrwd Catalydd

Rydym yn cynnig:

- sicrhau bod tua **£6 miliwn** ar gael ar gyfer ceisiadau rhwng **£250,000 ac £1 miliwn**;
- caniatáu i unrhyw un fod yn brif arweinydd mewn partneriaeth ag unrhyw sefydliad;
- gofyn am gyfraniad ariannol gorfodol o 10% i gystadlu; (gweler 1.3 [telerau ac amodau](#) ac Atodiad 2.2.2);
- caniatáu i IPR cefndir gael ei drwyddedu, a chynnal yr opsiwn i ymgeiswyr gynnig dull IPR amgen. Rhaid rhannu IPR blaendirol gyda chwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr (gweler [telerau ac amodau](#) ac Atodiad 2.2.2);
- cynnal proses gofrestru debyg i Torri Drwodd 2 (gweler 5.1 [Llawlyfr ymgeiswyr](#)) ffrwd Catalydd; a
- chynnal y gystadleuaeth hon yn flynyddol (yn debygol o redeg rhwng mis Hydref a mis Mawrth).

Ffrwd Trawsnewid

Rydym yn cynnig:

- sicrhau bod tua **£30 miliwn** ar gael ar gyfer ceisiadau rhwng **£1 miliwn a £10 miliwn**;
- ei gwneud yn ofynnol i brif gynigwyr fod yn gwmni dŵr neu'n NAV. AGall unrhyw sefydliad fod yn bartner (gweler [telerau ac amodau](#)) Torri Drwodd 2;
- gofyn am gyfraniad ariannol gorfodol o 10% i ymgeisio (gweler 1.3 [telerau ac amodau](#) Torri Drwodd 2 ac Atodiad 2.2.2);
- caniatáu i IPR cefndir gael ei drwyddedu, a chynnal yr opsiwn i ymgeiswyr gynnig dull IPR amgen. Rhaid rhannu IPR blaendirol gyda chwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr (gweler [telerau ac amodau](#) ac Atodiad 2.2.2);
- cynnal proses gofrestru debyg i Torri Drwodd 2 (gweler 5.1 [Llawlyfr ymgeiswyr](#) Torri Drwodd 2); a
- chynnal y gystadleuaeth hon yn flynyddol (yn debygol o redeg rhwng mis Hydref a mis Mawrth).

C8. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein dull arfaethedig ar gyfer ffrwd Catalydd ar gyfer 2022–25? Rydym wedi darparu ffigurau dangosol ond byddem yn croesawu eich barn ar symiau dyfarniadau, gwerthoedd mynediad, gofynion mynediad, y broses ymgeisio ac amllder y cystadlaethau?

C9. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein dull arfaethedig ar gyfer ffrwd Trawsnewid ar gyfer 2022–25? Rydym wedi darparu ffigurau dangosol ond byddem yn croesawu eich barn ar symiau dyfarniadau, gwerthoedd mynediad, gofynion mynediad, y broses ymgeisio ac amllder y cystadlaethau?

C10. A ddylem alluogi unrhyw sefydliad i ymuno â'r ffrwd Trawsnewid heb fod angen bod mewn partneriaeth â chwmni dŵr? Eglurwch pam.



Ar ôl gweld y dull arfaethedig ar gyfer 2022–25, byddem yn gwerthfawrogi eich barn ynglŷn ag ychydig o gwestiynau eraill.

C11. A yw dull cystadleuaeth arfaethedig y gronfa arloesi ar gyfer 2022–25 yn eich gwneud chi'n fwy neu'n llai tueddol o gystadlu? Eglurwch eich ateb.

C12. A oes unrhyw rwystrau y gallwch eu gweld gyda'n dull cystadleuaeth arfaethedig ar gyfer 2022–25?

C13. A oes ffyrdd neu ddulliau eraill y credwch y dylem eu hystyried ar gyfer y gronfa arloesi ar gyfer 2022–25 a allai ei gwneud yn well i ddatblygiadau newydd ddod ymlaen a / neu wneud cystadlaethau yn y dyfodol yn fwy deniadol i arloeswyr?

C14. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar naill ai'r dull arfaethedig ar gyfer 2022–25 neu eich profiadau o'r cyfnod peilot?

C15. Sefydlwyd y gronfa arloesi i redeg rhwng 2020–25, a byddem yn croesawu eich barn ynglŷn ag a ddylem ystyried rhedeg y gronfa arloesi, neu fersiwn wedi'i haddasu o'r gronfa, y tu hwnt i 2025.

C16. Er mwyn ein helpu i wella yn y dyfodol, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar yr ymgynghoriad hwn.



Rydym yn croesawu eich sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn erbyn **17 Mai 2022**. Gallwch ymateb [ar-lein](#), drwy e-bost innovationconsultation@ofwat.gov.uk neu drwy'r post:

Innovation fund April 2022 consultation response
Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i innovationconsultation@ofwat.gov.uk a byddwn mewn cysylltiad.

Byddwn yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk, oni bai y byddwch yn nodi eich bod yn dymuno i'ch ymateb beidio â chael ei gyhoeddi. Gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion.

Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion ac yn bwriadu cyhoeddi dogfen penderfyniad yn haf 2022. Rydym yn bwriadu agor rownd nesaf yr Her Torri Drwodd Dŵr ar gyfer ceisiadau ym mis Hydref 2022.

Cyn bo hir byddwn yn lansio StreamLine, gwasanaeth newydd a ddarperir gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, y Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat sydd â'r nod o'i gwneud hi'n haws i arloeswyr gael cyngor i lywio'r drwy'r rhwystrau rheoleiddio yn y diwydiant dŵr a dŵr gwastraff.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran anweinidogol y llywodraeth. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn i mailbox@ofwat.gov.uk.

OGI